

# TABERNACL, EGLWYS Y BEDYDDWYR

England & Wales · Charity number 1194980

## Details

---

**Other names** TABERNACL

**Status** Registered

**Legal form** Other

**Registered** 2021-06-28

**Register** [View on the Charity Commission register](#)

## Contact

---

**Address** Tabernacl Eglwys Y Bedyddwyr  
Yr Ais  
Caerdydd  
CF10 1AJ

**Phone** 07794714257

**Email** [MARC\\_J\\_WILLIAMS@YAHOO.CO.UK](mailto:MARC_J_WILLIAMS@YAHOO.CO.UK)

**Website** [www.tabernacl.cymru](http://www.tabernacl.cymru)

## Activities

---

**Objects:** TABERNACL, EGLWYS Y BEDYDDWYR EXISTS IN ORDER TO HELP US: WORSHIP GOD PROCLAIM THE GOSPEL DEMONSTRATE THE LOVE OF GOD IN OUR EVERYDAY LIFE IN CARDIFF IN WALES AND THE WORLD

**Activities:** Baptist Church

## Classification

---

- **How:** Provides Buildings/facilities/open Space
- **What:** Religious Activities
- **Who:** Children/young People, Elderly/old People, People With Disabilities, People Of A Particular Ethnic Or Racial Origin, Other Charities Or Voluntary Bodies, Other Defined Groups, The General Public/mankind

## Geography

---

- Cardiff

## Finances

Period end	Income	Expenditure	Assets	Employees
2025-12-31	£135,623	£149,708	-	-
2024-12-31	£150,712	£204,438	-	-
2023-12-31	£126,647	£94,512	-	-
2022-12-31	£98,802	£67,863	-	-
2021-12-31	£192,820	£201,393	-	-

## Trustees

Name	Role	Appointed
<b>Rhys ab Owen</b>	Chair	2011-11-20
Catrin Elinor Lloyd		2016-04-03
Dafydd Huw Wrennall		2021-11-07
David Huw Jones		2016-04-03
Euros Rhys Evans		1994-06-26
Gillian Thomas		2016-04-03
Helen Mary Jones		2004-12-19
Llinos Metcalf		2016-04-03
Marc Jon Williams		2004-12-19
Mari Gwenllian Richards		2021-11-07
Noa Evans		2025-03-20
Rev Rosa Hunt		2022-09-22
Rhodri ab Owen		2011-11-20
Sian Elisabeth Thomas		2025-03-20
WILLIAM DAVIES		2021-11-07

**TABERNACL, EGLWYS Y BEDYDDWYR**

England & Wales - Charity number 1194980

---

# Accounts

---

## Adroddiad Blynyddol y Tabernacl 2025

Mae Tabernacl Eglwys y Bedyddwyr yn eglwys rhestredig Gradd II\* yng nghanol Caerdydd. Cynhelir y gwasanaethau yn y Gymraeg. Ar ddechrau'r flwyddyn roedd y corff llywodraethol yn cynnwys y Gweinidog (sydd nawr yn llawn amser), 2 gyd-ysgrifennydd, trysorydd 2 gyd-ysgrifennydd ariannol a 7 o ymddiriedolwyr eraill. Etholwyd 2 ymddiriedolwr newydd yng Ngwanwyn y flwyddyn hon gan wneud cyfanswm o 15 ymddiriedolwr gwasanaethol. Dechreuodd y flwyddyn gyda 142 o aelodau. Bu farw 6 yn ystod y flwyddyn a rhoddodd 5 o bobl y gorau i'w haelodaeth am wahanol resymau. Bedyddiwyd 4 person a throsglwyddodd 5 arall eu haelodaeth i'r Tabernacl o eglwysi eraill gan orffen y flwyddyn gydag aelodaeth o 140.

Mae'r eglwys wedi ymrwymo i'n cynorthwyo ni i addoli Duw, cyhoeddi'r efengyl a dangos cariad Duw yn ein bywydau bob dydd, yng Nghaerdydd, yng Nghymru a'r Byd. Mae'r rhan fwyaf o'r aelodau yn Gymraeg eu hiaith ond mae pawb sy'n dymuno mynychu bob amser yn cael eu croesawu. Rydym yn croesawu llawer o ymwelwyr tramor o bob cwr o'r byd, sydd yn galw heibio i addoli gyda ni tra'u bod yn y ddinas ar wyliau neu ar gyfer busnes. Mae'r eglwys yn aelod o Cytûn (eglwysi ynghyd). Mae'r grŵp yn cynnwys yr Eglwys yng Nghymru, Pabyddion ac Eglwysi Anghydfurfiol arall y ddinas. Mae hyn yn gyfle, nid yn unig i gynnal gwasanaethau cydenwadol, ond hefyd i gyfarfod yn gymdeithasol i drafod a chyfnewid syniadau a dysgu mwy am gredoau gwahanol.

Cynhelir gwasanaethau ar y Sul yn y bore a gyda'r hwyr. Cyn y gwasanaeth boreol cynhelir sesiwn o weddi fyfyrion gydag Ysgol Sul yn cael ei gynnal ar ôl y gwasanaeth boreol. Rydym yn falch o adrodd bod presenoldeb yn yr Ysgol Sul yn cynyddu wrth i deuluoedd newydd gyda phlant ifanc ddechrau addoli gyda ni. Dethlir y Cymun Bendigaid yn y gwasanaeth gyda'r nos ar Sul cyntaf y mis ac yn y bore ar drydydd Sul y mis. Gwahoddir pawb sy'n caru'r Arglwydd i ymuno wrth fwrdd y cymun. Mae'r gwasanaethau ar y Sul yn cael eu darlledu ar Facebook gan alluogi'r aelodau hynny nad ydynt yn gallu bod yn bresennol i ymuno yn yr addoliad. Ymwelir ag aelodau yn rheolaidd, yn enwedig y rhai nad ydynt yn gallu bod yn bresennol am ba reswm bynnag. Gellir dathlu'r Cymun Bendigaid yn eu cartrefi os dymunant.

Unwaith y mis mae gennym dau sesiwn o astydiaeth beiblaidd. Cynhelir un yn yr eglwys tra bod yr ail, ar yr un pwn, ar Zoom. Mae hyn yn galluogi mynediad i unrhyw un sydd am ddysgu ac ymuno yn y trafodaethau. Mae'r sesiynau hyn yn cael eu harwain gan ein gweinidog.

Yn dilyn llwyddiant y Genhadaeth Weddi Ewropeaidd a drefnwyd gan eglwys Corea yn 2024, penderfynon nhw ddychwelyd eleni. Roedd yn llwyddiant ysgubol ac maen nhw eisoes wedi archebu eu dyddiad ar gyfer ymweliad arall ym mis Gorffennaf 2026.

Mae diwrnodau'r wythnos yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau gwahanol i aelodau a ffrindiau.

Unwaith y mis ar ddydd Llun mae'r Clwb Darllen yn cyfarfod, fel arfer mewn bwyty lleol, i drafod llyfr o'u dewis ac i gymdeithasu.

Roedd ein cyfarfod prynhawn Mawrth o'r enw "Cymdeithas am Ddau" gynt ar gyfer y chwirydd ond mae bellach yn cynnwys dynion yr eglwys. Mae'r cyfarfod yn dechrau gydag amser byr o addoliad ac yna sgwrs gan siaradwr gwadd neu gweithgareddau eraill a drefnir. Yn dilyn y cyfarfod darperir te gan roi cyfle i gymdeithasu a sgwrsio. Eleni eto mae menywod y grŵp wedi bod yn rhan o ddau brosiect gwau - gwau sgwariau i wneud blancedi i'r digartref neu'r anghenus a gwau Cywion Pasg i godi arian ar gyfer Ysbyty Canser Felindre yng Nghaerdydd. Trefnir ffair bob blwyddyn ym mis Rhagfyr i godi arian at elusen neu achos da. Eleni rhoddwyd yr arian a gasglwyd i ddarparu llochesau nos yng Nghaerdydd a'r Wcráin.

Nos Fawrth yw ein hamser i gyfarfod yn llai ffurfiol ond mewn gweithgareddau wedi'u trefnu. Mae'r rhain yn cynnwys sgysiau gan siaradwyr gwadd, nosweithiau cerddorol, prydau dathlu, nosweithiau sgitls ac ati. Yn yr Haf trefnir taith ddirgel gan un o'r aelodau a the mefus i godi arian at rhyw elusen arbennig. Eleni rhannwyd yr arian a godwyd rhwng dau grŵp sy'n ymwneud â helpu'r bobl hynny yn y ddinas sy'n llai ffodus na ni ein hunain.

Ar ddydd Mercher mae gennym fore coffi unwaith y mis, naill ai yng nghartref aelod neu ar Zoom fel bod y rhai sy'n gaeth i'r tŷ yn gallu ymuno. Rhoddir unrhyw arian a godir yn y cyfarfodydd hyn i elusen. Eleni rhoddwyd yr arian i Ysbyty Canser Felindre.

Ar foreau Sadwrn rydym yn gweini te, coffi a bisgedi i unrhyw un sy'n dewis ymweld. Mae hyn yn bennaf ar gyfer y digartref sy'n chwilio am ddiod poeth a rhywfaint o gynhesrwydd os ydyn nhw wedi treulio'r nos y tu allan neu mewn pabell, ond ma na groeso i bawb. Nid oes tâl ond derbynnir rhoddion yn ddiolchgar bob amser.

Amser cinio bob yn ail fis mae gennym ddatganiad organ sydd ar agor i'r cyhoedd

Defnyddir yr eglwys yn gyson gan Hijinx (grŵp o bobl ifanc ag anabledau) ar gyfer eu Clwb Ieuenctid, ac U3A ar gyfer eu grŵp dawn. Mae Bugeiliaid y Stryd yn defnyddio'r eglwys fel eu canolfan ar nos Wener ac ar nos Sadwrn. Eleni mae'r Gwasanaeth Cynghori Ieuenctid Cenedlaethol wedi bod yn defnyddio'r festri ar gyfer amrywiaeth o gyfarfodydd ac maent yn bwriadu parhau i wneud hynny yn y dyfodol

Mae lleoliad yr eglwys yng nghanol y ddinas yn ddelfrydol ar gyfer cyngherddau a pherfformiadau o bob math. Rydym wedi cynnal amrywiaeth o grwpiau corawl yn ystod y flwyddyn yn ogystal â

datganiadau organ a phiano, sesiynau recordio, ac mae'r festri wedi cael ei defnyddio fel Ystafell Werdd ar gyfer cwmnïau ffilm. Ein gwestau diweddaraf yw grŵp yn cynnal gweithdau ar gyfer gwneud Pice ar y Maen.

Mae ein Canolfan Clyd ar gyfer y digartref neu'r rhai sydd eisïau cwmni neu cynhesrwydd yn parhau i fynd o nerth i nerth. Darperir prydïau poeth, ffrwythau ffres a chacennau i hyd at 70 o bobl amser cinio dydd Mercher a dydd Sul. Mae'r amseroedd hyn yn galluogi ein hymwelwyr i eistedd a sgwrsio, cael pryd o fwyd am ddim, cymryd rhan mewn gweithgareddau neu ddim ond eistedd ac ymlacio. Roedd pawb yn falch i dderbyn anrheg Nadolig yn cynnwys menig, sanau, gwresogyddion dwylo a siocled.

Yn ystod y flwyddyn cawsom ein derbyn gan y Banc Bwyd fel canolfan ar gyfer dosbarthu talebau bwyd. Mae hyn wedi profi i fod yn wasanaeth amhrisiadwy i'r rhai sy'n gymwys i'w derbyn. Rydym hefyd wedi cael ein cofrestru fel canolfan sy'n barod i groesawu cyn-garcharorion i'n man cynnes.

Mae "Tabwyl" (clwb i blant ysgolion cynradd) wedi chwarae rhan bwysig unwaith eto ym mywyd plant yr eglwys a'u ffrindïau. Yn ystod y sesiynau, cymerodd y plant ran mewn pob math o weithgareddau crefft, gemau, gwrando ar straeon beiblaidd ac ati. Mae ei llwyddiant wedi ein hannog i barhau â'r fenter a gobeithiwn y bydd y niferoedd sy'n mynychu yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

Fel eglwys rydym wedi ein gyfeillio ag Eglwys Efengylaidd Sefika ym Maseru, Lesotho, a thrwy'r eglwys hon rydym wedi datblygu cyfeillgarwch agos â sefydliadau gwahanol yn Maseru. Anfonir rhodd ariannol yn flynyddol i gefnogi gwaith y sefydliadau hyn. Gwelwn ein cefnogaeth yn Lesotho fel cyfle i ddangos cariad Duw mewn rhan arall o'r byd sy'n llai ffodus na ni ein hunain. Y flwyddyn nesaf bydd grŵp o bobl ifanc yn teithio i Lesotho er mwyn cryfhau'r cyfeillgarwch hyn ac i weld sut y gallwn ni helpu i wella eu bywydau mewn gwlad llai cyfoethog na'n gwlad ni. Rydym wedi bod yn ffodus i dderbyn grant i dalu'r rhan fwyaf o gostau'r daith.

Rydym hefyd wedi dangos ein cefnogaeth i eraill gyda rhoddion ariannol i Cymorth Cristnogol, Cenhadaeth Fyd-eang BMS, Cymdeithas y Beibl, Operation Agri, llochesau nos yng Nghaerdydd ac Wcráin, Ysbyty Canser Felindre a sawl elusen lleol araill.

Nid oes unrhyw brosiectau adfer ar raddfa fawr wedi bod eleni ond mae sawl un wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf. Un sydd eisïes yn y cyfnod cynllunio yw tynnu llwyfan y festri i lawr a gosod cegin newydd. Yn y festri uchaf mae deuddeg ffenestr velux i'w amnewid, ac yn y capel mae angen ailblastro'r wal ddeheuol.

Mae Tabernacl yn hen adeilad sydd angen gwaith atgyweirio cyson ac mae'r rhestr Gradd II\* yn ei gwneud yn ofynnol defnyddio deunyddïau penodol sydd yn gwneud y gwaith yn ddrytach. Rydym yn parhau i

obeithio y bydd yr aelodau mor hael yn eu rhoddion ag erioed fel y gallwn gadw'r adeilad yn le diogel a chyfforddus a gyfer addoli.

### Adolygiad Ariannol

Roedd cyfanswm y derbyniadau i gronfeydd anghyfynedig yn £91,991 yn cynnwys cyfraniadau wythnosol yr aelodau, rhodd cymorth a llog ar fuddsoddiadau. Derbyniwyd £44,364 i'r cronfeydd cyfyngedig. Mae'r ddau ffigur wedi'u manylu yn y datganiad ariannol.

Mae digwyddiadau codi arian a llogi'r adeilad wedi dod ag incwm ychwanegol.

Mae Rhodd Cymorth yn creu swm i'w groesawu ac anogir pob aelod i gymryd rhan yn y cynllun hwn.

Parhaodd y gyfradd llog yn uchel am rhan o'r flwyddyn gan roi elw da ar ein buddsoddiadau. Nid oedd angen symiau mawr o arian eleni ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad ond mae hyn yn golygu y bydd costau'r flwyddyn nesaf yn sylweddol uwch. Y flwyddyn nesaf hefyd bydd y Grant Mannau Addoli Rhestredig yn dod i ben, felly ni fydd modd hawlio TAW yn ôl ar unrhyw gostau yn y dyfodol.

Mae'r arian a gasglwyd ar gyfer amrywiol elusennau ac achosion da wedi aros ar yr un lefel â'r blynyddoedd blaenorol ac rydym yn ddiolchgar iawn am hyn.

Cyfanswm y costau gweinidogol (llawn amser) oedd £55,695 sy'n cynnwys cyflog, pensiwn, treth a threuliau.

Mae gennym 3 cronfa wrth gefn

Cronfa fugeiliol - cronfa a sefydlwyd gan y diaconiaid blynyddoedd lawer yn ôl i sicrhau y byddai arian ar gael i dalu'r gweinidog pe na byddai'r offrwm wythnosol yn cwrdd â'r anghenion

Cronfa Cymynroddion – cronfa o gymynroddion yw hon. Mae wedi cael ei rhoi o'r neilltu i dalu am lety i'r gweinidog pe byddai angen.

Cronfa Cyffredinol/Gwelliannau/Organ – arian yw hwn sydd wedi ei gronni dros gyfnod pan oedd yr aelodaeth yn uwch ac yr offrwm wythnosol yn fwy. Gellir codi arian o'r gronfa hon ar gyfer gwaith cynnal a chadw a gwelliannau cyffredinol. Eleni bu rhaid i ni godi arian o'r gronfa hon. Dim ond rhan o gronfa cyfyngedig yr organ sydd yn y gronfa ar hyn o bryd. Mae'r arian hyn wedi ei gasglu dros sawl blwyddyn ac wedi ei glustnodi ar gyfer unrhyw waith sylweddol fydd angen ei wneud ar yr organ yn y dyfodol.

Cymeradwywyd gan y diaconiaid ar 26 Chwefrof 2026 a llofnodwyd ar eu rhan gan

Rhodri ab Owen

**TABERNACL, EGLWYS Y BEDYDDWYR**

England & Wales - Charity number 1194980

---

# Accounts

---

## Tabernacl Eglwys y Bedyddwyr Annual Report 2024

Tabernacl Eglwys y Bedyddwyr is a Grade II\* listed City Centre Church. Services are conducted in the Welsh language. During most of the year the governing body which meets once a month consisted of the minister, 2 joint secretaries, treasurer, 2 financial secretaries and 10 other trustees. In the last quarter of the year 3 of these trustees retired leaving a governing body of 13 trustees. The year started with 141 members. There were 6 deaths during the year and 1 person transferred membership to another church. 1 person was baptised and 7 others transferred their membership to Tabernacl from other churches thus ending the year with a membership of 142.

The church is committed to helping us to worship God, proclaim the Gospel and demonstrate the love of God in our everyday life in Cardiff, Wales and the World. Most members are Welsh speaking but anybody who wishes to attend are always made very welcome. We welcome many foreign visitors from all parts of the world who drop in and worship with us while in the city on vacation or on business. The Church is a member of Cytûn (churches together). This group includes the Church in Wales, Roman Catholics and other Non-conformist churches in the city. This gives us the opportunity, not only to hold inter-denominational services, to meet socially to discuss and exchange ideas and to learn about different faiths but also to take part in less formal activities such as organised pilgrimages around the city churches.

Sunday services are held in the mornings and evening with Sunday School held after the morning service. We are pleased to report that the Sunday School attendance is increasing as new and younger families have begun worshipping with us. On the first Sunday of the month a session of contemplative prayer takes place before the morning service and similarly after the evening service on the third Sunday of the month. These are also the two occasions when we celebrate Holy Communion – in the evening of the first Sunday of the month and in the morning service on the third Sunday. Sunday services are transmitted on Facebook enabling those members unable to attend in person to join in the worship. On Thursdays we have a time of prayer to pray for the mission of the church followed by a midweek service. Members are visited regularly, especially the sick and those who are unable to attend for whatever reason. Holy Communion can be celebrated in their homes if they so wish.

Once a month we have 2 Bible Study sessions – 1 is held at the church while the second, on the same topic, is on Zoom. This enables access to anybody who wishes to learn and join in the discussions.

We have been especially pleased this year to host 2 special services. Firstly the Valedictory service for the students completing their courses at the Cardiff Baptist College, and secondly a European Prayer Mission organised by a Korean Church when the church, which can accommodate 850, people was almost full. Following this success they hope to return in 2025.

Weekdays offer a variety of different activities for members and friends.

One Monday every month the Book Club meet, usually in a local restaurant, to discuss a chosen book and to socialise.

Our Tuesday afternoon meeting (previously a gathering of the sisterhood) is now called 'Gymdeithas am DDau ' and includes the gentlemen of the church. The meeting begins with a short time of worship followed by a talk by a guest speaker. Following the meeting tea is provided giving the opportunity for socialising and chatting. This year the ladies of the group have been involved in two knitting projects – knitting squares to make blankets for the homeless or needy and knitting Chick Easter egg covers to raise money for Velindre Cancer Hospital in Cardiff. Annually a fair is arranged in December to raise funds for a charity or good cause.

Tuesday evening is our time for meeting less formally but in organised activities. These include talks by guest speakers, musical evenings, celebratory meals, skittles evenings, etc. a yearly Mystery Tour arranged by members and a charity fund raising Strawberry tea.

On Wednesdays we have a once monthly coffee morning either in the home of a member or alternatively on Zoom. Any money raised at these meetings is donated to a chosen charity. This year the money was donated to the joint venture between The Baptist Union of Wales and Christian Aid called "Talents of Hope" raising money for their work giving training and support to the people of Zimbabwe.

On alternate months we have a Saturday morning organ recital which is open to the public.

The church is used regularly by Hijinx(a group of less able youngsters) for their Youth Club and U3A for their dancing group. Street Pastors use the church as their base on Fridays and Saturday evenings.

The city centre location makes the church an ideal venue for concerts and performances of all kinds. This year we have hosted a range of choral groups, a theatre group, organ and piano recitals, the vestry has been used as a Green Room for film companies and the BBC has recorded services and programmes in the church.

Our Warm Space for the homeless or those wanting company or warmth continues to go from strength to strength. Hot meals, fresh fruit and cakes are provided for up to 70 people on Wednesday and Sunday lunchtimes. On Saturday mornings we are open for coffee/tea and cake or biscuits. These times enable our visitors to sit and chat, have a free meal, take part in activities or just sit and relax. Some clothes donated by our volunteers are available when needed.

During our October school half term a new venture called Tabwyl was launched – a holiday club for those in year 6 at school. During the sessions children took part in craft activities, games, bible stories etc. Its success has encouraged us to continue with the venture and we hope that numbers will increase next year as more parents take advantage of free activities for their children during the school holiday.

As a church we are twinned with Sefika Church in Maseru, Lesotho. Through this we have developed a strong friendship with different organisations in Maseru. A donation is sent yearly to support the work of these organisations. We see this work as an opportunity to demonstrate the love of God in other parts of the world less fortunate than ourselves.

We have shown our support to others with donations to Christian Aid, BMS World Mission, Bible Society, Operation Agri and the above mentioned joint appeal by Baptist Union of Wales/Christian Aid for Zimbabwe.

During the year a considerable sum of money was spent on remedial works and improvements. The installation of a new boiler was finally complete and later in the year the roof on the South side of the building had to be replaced. The final cost for these projects was £108,000. Moving forward into the digital age it was decided to purchase 2 large screens to replace the projector and screen used in the past. These are on movable stands so can be used in all parts of the building. A digital monitor has been installed in the noticeboard outside the church making it easier to keep information up to date and draw the attention of people passing by to the activities within the church. The graveyard at the rear of the church was cleared and covered in gravel making it easier to keep clean and tidy in the future. The greenery around this area was trimmed by volunteers under the supervision of the Probation service.

Tabernacl is an old building requiring constant remedial work and the Grade II\* listing requires the use of specified materials which are usually more expensive. We continue to hope that members will be as generous in their giving as always, so that we can keep the building a safe and comfortable place for worshipping.

## Financial Review

Total receipts on restricted funds were £132,609 which included donations from members in their weekly offerings, one-off gifts to the church, a bequest, repayment of VAT on work carried out during the year, gift aid and interest on investments. Restricted funds of £18,103 were received. Both figures are detailed in the financial statement

Fund raising and hiring out of the church premises has brought in extra income.

Gift Aid generates a welcome sum and all members are encouraged to participate in this scheme.

Interest remained at a high rate for the year providing a good return on our investments. Considerable costs were incurred this year to pay for the new boiler and for re-roofing the South side of the church. Fortunately we were able to claim back VAT on most of these costs through the Listed Places of Worship scheme.

Funds collected for various charities and appeals has remained on a par with previous years and for this we are very grateful.

Ministerial costs (half time) amounted to £24,744 which includes stipend, tax, pension and expenses.

We have 3 reserve funds

Cronfa Fugeiliol – a fund set up by the deacons many years ago to ensure that there would be money available to pay the minister if weekly offerings did not meet the needs.

Cronfa Cymunroddion – this is made up of bequests to the church. This money has been set aside to pay for ministerial accommodation if the need arises.

Cronfa Cyffredinol/Gwelliannau/Organ – this is money built up over time when the membership was higher and weekly giving was greater. Withdrawals are made from this fund for general maintenance and improvements. Part of the restricted organ fund is included in this fund. This money has been collected over several years and earmarked for any major work required on the organ in future.

Approved by the deacons on 15<sup>th</sup> May 2025 and signed on their behalf by

Catrin Lloyd

## Adroddiad Blynyddol Tabernacl Eglwys y Bedyddwyr 2024

Mae Tabernacl Eglwys y Bedyddwyr yn eglwys rhestredig Gradd II\* yng nghanol Caerdydd. Cynhelir gwasanaethau yn y Gymraeg. Mae'r corff llywodaraethu, sydd yn cwrdd unwaith y mis, yn cynnwys y Gweinidog, 2 gyd-ysgrifennydd, trysorydd, 2 gyd-ysgrifennydd ariannol a 10 o ddiaconiaid eraill. Yn chwarter olaf y flwyddyn ymddeolodd 3 o'r ymddiriedolwyr hyn gan adael corff llywodraethol o 13 ymddiriedolwr. Dechreuod y flwyddyn gyda 141 o aelodau. Bu farw 6 yn ystod y flwyddyn a throsglwyddodd 1 arall ei haelodaeth i eglwys arall yn nes at ei chartref. Bedyddiwyd 1 person a throsglwyddodd 7 arall eu haelodaeth i'r Tabernacl o eglwysi eraill gan orffen y flwyddyn gydag aelodaeth o 142.

Mae'r eglwys wedi ymrwymo i'n cynorthwyo ni i addoli Duw, cyhoeddi'r efengyl a dangos cariad Duw yn ein bywydau bob dydd, yng Nghaerdydd, yng Nghymru a'r Byd. Mae'r rhan fwyaf o'r aelodau yn Gymraeg eu hiaith ond mae pawb sy'n dymuno mynychu bob amser yn cael eu croesawu. Rydym yn croesawu llawer o ymwelwyr tramor o bob cwr o'r byd, sydd yn galw heibio i addoli gyda ni tra'u bod yn y ddinas ar wyliau neu ar gyfer busnes. Mae'r eglwys yn aelod o Cytûn (eglwysi ynghyd). Mae'r grŵp yn cynnwys yr Eglwys yng Nghymru, Eglwysi Anghydfurfiol a Pabyddion. Mae hyn yn gyfle, nid yn unig i gynnal gwasanaethau cydenwadol, ond hefyd i gyfarfod yn gymdeithasol i drafod a chyfnewid syniadau a dysgu mwy am greddoau gwahanol.

Cynhelir gwasanaethau ar y Sul yn y bore a gyda'r hwyr gyda'r Ysgol Sul ar ôl gwasanaeth y bore. Rydym yn falch o adrodd bod presenoleb yn yr Ysgol Sul yn cynyddu wrth i deuluodd newydd gyda phlant ifanc ddechrau addoli gyda ni. Ar Sul cyntaf y mis cynhelir sesiwn o weddi fyfyrion cyn gwasanaeth y bore ac yn yr un modd ar ôl gwasanaeth yr hwyr ar drydedd Sul y mis. Dyma hefyd y Suliau pan fyddwn yn dathlu'r Cymun Bendigaid – gyda'r nos ar Sul cyntaf y mis ac yng ngwasanaeth y bore ar drydedd Sul y mis. Gwahoddir pawb sy'n caru'r Arglwydd i ymuno wrth fwrdd y cymun. Mae'r gwasanaethau ar y Sul yn cael eu darlledu ar Facebook gan alluogi'r aelodau hynny nad ydynt yn gallu bod yn bresennol i ymuno yn yr addoliad. Ymwelir ag aelodau yn rheolaidd, yn enwedig y rhai nad ydynt yn gallu bod yn bresennol am ba reswm bynnag. Gellir dathlu'r Cymun Bendigaid yn eu cartrefi os dymunant.

Unwaith y mis mae gennym 2 sesiwn o astydiaeth beiblaidd. Cynhelir 1 yn yr eglwys tra bod yr ail, ar yr un pwnc, ar Zoom. Mae hyn yn galluogi mynediad i unrhyw un sydd am ddysgu ac ymuno yn y trafodaethau

Rydym wedi bod yn hynod falch eleni o gynnal 2 wasanaeth arbennig. Yn gyntaf, y gwasanaeth ymadael i'r myfyrwyr oedd yn cwblhau eu cyrsiau yng Ngholeg y Bedyddwyr Caerdydd, ac yn ail, Cenhadaeth Weddi Ewropeaidd a drefnwyd gan Eglwys Corea. Roedd yr adeilad, sy'n gallu darparu lle i 850 o bobl, bron yn llawn, ac yn dilyn y llwyddiant hyn maent yn gobeithio dychwelyd yn 2025.

Mae diwrnodau'r wythnos yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau gwahanol i aelodau a ffrindiau.

Un dydd Llun bob mis mae'r Clwb Darllen yn cyfarfod, fel arfer mewn bwyty lleol, i drafod llyfr o'u dewis ac i gymdeithasu.

Mae ein cyfarfod prynhawn Mawrth (a oedd gynt yn gynulliad y chwiorydd) bellach yn cael ei alw'n Gymdeithas "am DDau" ac mae'n cynnwys dynion yr eglwys. Mae'r cyfarfod yn dechrau gydag amser byr o addoliad ac yna sgwrs gan siaradwr gwadd. Yn dilyn y cyfarfod darperir te gan roi cyfle i gymdeithasu a sgwrsio. Eleni mae menywod y grŵp wedi bod yn rhan o ddau brosiect gwau – gwau sgwariau i wneud blancedi i'r digartref neu'r anghenus a gwau Cywion Pasg i godi arian ar gyfer Ysbyty Canser Felindre yng Nghaerdydd. Trefnir ffair bob blwyddyn ym mis Rhagfyr i godi arian at elusen neu achos da.

Nos Fawrth yw ein hamser i gyfarfod yn llai ffurfiol ond mewn gweithgareddau wedi'u trefnu. Mae'r rhain yn cynnwys sgyrtsiau gan siaradwyr gwadd, nosweithiau cerddorol, prydau dathlu, nosweithiau sgits ac ati. Yn yr Haf trefnir taith ddirgel gan un o'r aelodau a the mefus i godi arian at rhyw elusen arbennig.

Ar ddydd Mercher mae gennym fore coffi unwaith y mis naill ai yng nghartref aelod neu ar Zoom. Rhoddir unrhyw arian a godir yn y cyfarfodydd hyn i elusen. Eleni rhoddwyd yr elw i'r fenter ar y cyd rhwng Undeb Bedyddwyr Cymru/Cymorth Cristnogol "Talenta Gobaith" oedd yn codi arian ar gyfer eu gwaith yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth i bobl Simbabwe

Bob yn ail fis mae gennym ddatganiad organ sydd ar agor i'r cyhoedd

Defnyddir yr eglwys yn gyson gan Hijinx (grŵp o bobl ifanc ag anabledau) ar gyfer eu Clwb Ieuentid, ac U3A ar gyfer eu grŵp dawns. Mae Bugeiliaid y Stryd yn defnyddio'r eglwys fel eu canolfan ar nos Wener ac ar nos Sadwrn.

Mae lleoliad yr eglwys yng nghanol y ddinas yn ddelfrydol ar gyfer cyngherddau a pherfformiadau o bob math. Eleni rydym wedi cynnal amrywiaeth o grwpiau corawl, grŵp theatr, datganiadau organ a phiano, mae'r festri wedi cael ei defnyddio fel Ystafell Werdd ar gyfer cwmnïau ffilm ac mae'r BBC wedi recordio sawl gwasanaeth a rhaglen yn yr eglwys.

Mae ein Canolfan Clyd ar gyfer y digartref neu'r rhai sydd eisiau cwmni neu cynhesrwydd yn parhau i fynd o nerth i nerth. Darperir prydau poeth, ffrwythau ffres a chacennau i hyd at 70 o bobl amser cinio dydd Mercher a dydd Sul. Ar foreau Sadwrn rydym ar agor am de/coffi a chacen neu fisgedi. Mae'r amseroedd hyn yn galluogi ein hymwelwyr i eistedd a sgwrsio, cael pryd o fwyd am ddim, cymryd rhan mewn gweithgareddau neu ddim ond eistedd ac ymlacio. Mae rhai dillad a roddir gan ein gwirfoddolwyr ar gael pan fo angen.

Yn ystod hanner tymor yr ysgolion ym mis Hydref lansiyd menter newydd o'r enw "Tabwyl" – clwb gwyliau i blant ysgolion cynradd. Yn ystod y sesiynau, cymerodd y plant ran mewn pob math o weithgareddau crefft, gemau, straeon beiblaidd ac ati. Mae ei llwyddiant wedi ein hannog i barhau â'r fenter a gobeithiwn y bydd y niferoedd sy'n mynychu yn cynyddu'r flwyddyn nesaf wrth i fwy o rieni fanteisio ar weithgareddau am ddim i'w plant yn ystod gwyliau'r ysgol.

Fel eglwys rydym wedi ein gyfeillio ag Eglwys Sefika ym Maseru, Lesotho, a thrwy'r eglwys hon rydym wedi datblygu cyfeillgarwch agos â sefydliadau gwahanol yn Maseru. Anfonir rhodd ariannol yn flynyddol i gefnogi gwaith y sefydliadau hyn. Gwelwn ein cefnogaeth yn Lesotho fel cyfle i ddangos cariad Duw mewn rhan arall o'r byd sy'n llai ffodus na ni ein hunain.

Rydym hefyd wedi dangos ein cefnogaeth i eraill gyda rhoddion ariannol i Cymorth Cristnogol, Cenhadaeth Fyd-eang BMS, Cymdeithas y Beibl, Operation Agri, apêl BUW/Cymorth Cristnogol i Simbabwe a soniwyd amdano yn flaenorol ac elusennau lleol eraill.

Yn ystod y flwyddyn gwariwyd swm sylweddol o arian ar waith adfer a gwelliannau. Cwblhawyd gosod boeler newydd ac yn ddiweddarach bu'n rhaid gosod to newydd ar ochr ddeheuol yr adeilad. Roedd cost terfynol y prosiectau yn yn £108.000. Wrth symud ymlaen yn yr oes ddigidol, penderfynwyd prynu dau sgrin fawr i gymryd lle'r taflunydd a'r sgrin a ddefnyddiwyd yn y gorffennol. Mae 'r rhain ar stondinau symudol felly gellir eu defnyddio ym mhob rhan o'r adeilad. Mae monitor digidol wedi'i osod yn yr hysbysfwrdd tu allan i'r eglwys gan ei wneud hi'n haws cadw gwybodaeth yn gyfredol a thynnu sylw pobl sy'n mynd heibio at weithgareddau'r eglwys. Cliriwyd y fynwent yng nghefn yr eglwys a'l gorchuddio â graen gan ei gwneud hi'n haws ei chw'n lân ac yn daclus yn y dyfodol. Gwnaed hyn gyda chymorth gwirfoddolwyr dan oruchwiliaeth y Gwasanaeth Prawf.

Mae Tabernacl yn hen adeilad sydd angen gwaith atgyweirio cyson ac mae'r rhestr Gradd II\* yn ei gwneud yn ofynnol defnyddio deunyddiau penodol sydd yn gwneud y gwaith yn ddrytach. Rydym yn parhau i obeithio y bydd yr aelodau mor hael yn eu rhoddion ag erioed fel y gallwn gadw'r adeilad yn le diogel a chyfforddus a gyfer addoli.

## Adolygiad Ariannol

Roedd cyfanswm y derbyniadau i gronfeydd anghyfynedig yn £132,609 yn cynnwys cyfraniadau wythnosol yr aelodau, rhoddion i'r eglwys,,ad-daliad TAW ar waith a wnaed yn ystod y flwyddyn, cymorth rhodd a llog ar fuddsoddiadau. Derbyniwyd £18,103 i'r cronfeydd cyfyngedig. Mae'r ddaau ffigur wedi'u manylu yn y datganiad ariannol.

Mae digwyddiadau codi arian a llogi'r adeilad wedi dod ag incwm ychwanegol.

Mae Cymorth Rhodd yn creu swm i'w groesawu ac anogir pob aelod i gymryd rhan yn y cynllun hwn.

Parhaodd y gyfradd llog yn uchel am y flwyddyn gan roi elw da ar ein buddsoddiadau. Aethpwyd i gostau sylweddol eleni dalu am y boeler newydd ac am ail-doi ochr ddeheuol yr eglwys. Yn ffodus, llwyddom i hawlio TAW yn ôl ar rhan fwyaf o'r costau hyn drwy'r cynllun Mannau Addoli Rhestredig.

Mae'r arian a gasglwyd ar gyfer amrywiol elusennau ac achosion da wedi aros ar yr un lefel â'r blynyddoedd blaenorol ac rydym yn ddiolchgar iawn am hyn.

Cyfanswm y costau gweinidogol (hanner amser) oedd £24,744 sy'n cynnwys cyflog, pensiwn, treth a threuliau.

Mae gennym 3 cronfa wrth gefn

Cronfa fugeiliol – cronfa a sefydlwyd gan y diaconiaid blynyddoedd lawer yn ôl i sicrhau y byddai arian ar gael i dalu'r gweinidog pe na byddai'r offrwm wythnosol yn cwrdd â'r anghenion

Cronfa Cymynroddion – cronfa o roddion yw hon. Mae wedi cael ei rhoi o'r neilltu i dalu am lety i'r gweinidog pe byddai angen.

Cronfa Cyffredinol/Gwelliannau – arian yw hwn sydd wedi ei gronni dros gyfnod pan oedd yr aelodaeth yn uwch ac yr offrwm wythnosol yn fwy. Gellir codi arian o'r gronfa hon ar gyfer gwaith cynnal a chadw a gwelliannau cyffredinol. Ar hyn o bryd mae rhan o gronfa'r organ (cyfyngedig) wedi ei chynnwys yn y gronfa hon. Mae'r arian hyn wedi ei gasglu dros sawl blwyddyn ac wedi ei glustnodi ar gyfer unrhyw waith sylweddol fydd angen ei wneud ar yr organ yn y dyfodol.

Cymeradwywyd gan y diaconiaid ar 15 Mai 2025 a llofnodwyd ar eu rhan gan

Catrin Lloyd

**Tabernacl Eglwys y Bedyddwyr**  
**Cyfrif Cyffredinol yr Eglwys am y Flwyddyn yn diwedd Rhagfyr 31, 2024**

2023	Cyfrifon Derbyniadau a Taliadau	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm £
<b>DERBYNIADAU</b>				
<b>Cyfraniadau a Rhoddion</b>				
41233	Offrwm Wythnosol	40597		40597
10450	Rhoddion	22900		22900
30	Trosglwyddiad cyfrif yr Ysgol Sul			
1262	Gwelliannau	1390		1390
3440	Defnydd Adeilad	4885		4885
292	Boreau Coffi	307	431	738
2096	Achosion da		1821	1821
9644	Y Ganolfan Glyd		6323	6323
	Y Gymdeithas am Ddau		604	604
1878	Cronfa'r Organ		1561	1561
110	Cronfa'r piano		1515	1515
4447	Paneli solar (FIT)	4142		4142
12974	Rhodd Cymorth	14409		14409
2270	Cymdeithas		1165	1165
665	Arolygon		709	709
95	Llyfrau/Blodau/Cardiau/Amrywiol			0
4951	Ad-daliadau /Grantiau	20210		20210
	Tabwyl		120	120
5127	Undeb			0
1977	Lesotho/Noddi plentyn Lesotho		1035	1035
455	Cynllun penblwydd BMS		390	390
532	Casgliad Cymun		431	431
3345	Apeliadau arbennig	126	1998	2124
<u>19374</u>	<u>Llôg o buddsoddiadau CCLA</u>	<u>23643</u>		
<u>126647</u>		<u>132609</u>	<u>18103</u>	<u>150712</u>
<b>TALIADAU</b>				
15605	Cydnabyddiaeth	18757		18757
1790	Treth a NI	2835		2835
3537	Pensiwn	4244		4244
1768	Treuliau	1908		1908
2790	Pregethwyr achlysurol	1325		1325
2014	Llungopio a nwyddau swyddfa	2597		2597
1162	Ffôn a Band Eang/ Western Mail	902		902
3003	Aelodaeth yr Undeb a chostau'r Banc	3384		3384
5172	Costau amrywiol	2956	2782	5738
5888	Y Ganolfan Glyd		3735	3735
4170	Undeb			
9955	Cynnal a chadw	14119		14119
7780	Gwelliannau	108429		108429
2489	Cyfarpar newydd	11161		11161
4790	Nwy / Trydan/ Dŵr	9042		9042
3654	Yswiriant	3724		3724
1836	Glanhau	2646		2646
1294	Cronfa Salem		1279	1279
	Organ		100	100
	Piano		610	610
187.00	Lluniaeth / Gwin Cymun	288		288
2203	BMS		1749	1749
6882	Lesotho/Noddi plentyn Lesotho		1154	1154
1142	Achosion Da yr Eglwys		893	893
1500	PAPYRUS			
2676	Cymorth Cristnogol		1037	1037
200	Operation Agri	200		200
	Wcrain		382	382
	UNICEF Plant Gaza		100	100
	UBC/Cymorth Cristnogol/Zimbabwe		2100	2100
1000	Y Groes Goch Brydeinig - Morocco			
25	Croeso Butetown			
<u>94512</u>		<u>188517</u>	<u>15921</u>	<u>204438</u>
32135	<b>Incwm / Gwariant NET</b>	-55908	2182	-53726
106027	Mewn Llaw yn y banc (31/12/2023)	96803	41368	118788
<u>138162</u>	<u>Mewn Llaw yn y banc (31/12/2024)</u>	<u>40895</u>	<u>43550</u>	<u>65062</u>
	Llôg 19374			Llôg 23643
	Banc 118788			Banc 41419

**Tabernacl Eglwys y Bedyddwyr**  
**Cyfrifon Blynnyddol**  
**31 Rhagfyr 2024**

**Dadansoddiad o Asedau Ariannol ar 31 Rhagfyr 2024**

**Cronfeydd Anghyfyngedig**

Cronfa Cymunroddion	£390,739
Cronfa Fugeiliol	63,203
Cronfeydd Cyffredinol	15,484

£469,426

**Cronfeydd Cyfyngedig**

Cronfa'r organ	£28,129
Cronfa'r piano	1,830
Cronfa Lesotho	452
Cronfa'r Gymdeithas	514
Ysgoloriaeth Dewi Watkin Powell	2,345
Cronfa Salem	14,642
Arolygon	404
Y Ganolfan Glyd	8,168
Cymdeithas am Ddau	604

£57,088

**Cyfanswm asedau ariannol ar 31 Rhagfyr 2024**

**£526,514**

**Tabernacl, Eglwys y Bedyddwyr**  
**Datganiad o asedau a rhwymedigaethau ariannol**  
**31 Rhagfyr 2024**

Cronfeydd ar 31 Rhagfyr 2023	£580,240
Gwariant net ar gronfeydd anghyfyngedig	- 55,908
Incwm net ar gronfeydd cyfyngedig	2,182
	-----
<b>Sefyllfa ariannol ar 31 Rhagfyr 2024</b>	<b>£526,514</b>
	-----
Cyfrif cyfredol Banc Co-operative	£41,419
COIF/CCLA Cronfa Cymunroddion	390,739
COIF/CCLA Cronfa Cyffredinol/organ	31,153
COIF/CCLA Cronfa Fugeiliol	63,203
	-----
<b>Asedau ariannol ar 31 Rhagfyr 2024</b>	<b>£526,514</b>
<b>Asedau eraill</b>	
Yn ddyledus - Rhodd Cymorth 2024	£11,500
Gwerth yswiriannol yr adeilad	£5,659,570
Cynnwys yr adeilad	£211,183
Mae adeilad yr eglwys o dan weithred cyfamod.	

Paratowyd y cyfrifon gan Gill Thomas a Helen Jones (Ysgrifenyddion ariannol)

Cymeradwywyd y cyfrifon gan yr ymddiriedolwyr ac arwyddwyd ar eu rhan gan

Rhodri ab Owen

Hyn sydd i gadarnhau bod y cyfrifon yn rhoi golwg gwir a theg o sefyllfa ariannol  
Tabernacl, Eglwys y Bedyddwyr ar 31 Rhagfyr 2024

**HUW ROBERTS F.C.M.A.**

Cyfrifydd ac Ymarferydd Profiant Awdurdodedig



Adran A

Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol

Adroddiad i  
ymddiriedolwyr/aelodau

Enw'r Elusen

TABERNACL EGLWYS Y BEDIYDDWYR

Ar y cyfrifon am y  
flwyddyn yn diwedd

2024

Rhif yr Elusen  
(os oes)

1194980

I'w gweld ar dudalennau

(cofiwch gynnwys rhifau tudalennau dalennau ychwanegol)

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon yr elusen uchod ("yr Ymddiriedolaeth") am y flwyddyn yn diwedd **DD / MM / BBBB**.

Cyfrifoldebau a'r sail  
adrodd

Fel ymddiriedolwyr elusen yr Ymddiriedolaeth, rydych yn gyfrifol am barato'i'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ("y Ddeddf").

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth ymgymryd â'm harchwiliad, dilynais y Cyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

Datganiad yr archwiliwr  
annibynnol

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw (heblaw'r hyn a ddatgelir isod \*) mewn perthynas â'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu, mewn unrhyw agwedd berthnasol:

- ni chafodd cofnodion cyfrifyddu eu cadw yn unol ag adran 130 o'r Ddeddf neu
- nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r cofnodion cyfrifyddu

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

\*Dilêwch y geiriau mewn cromfachau os nad ydynt yn gymwys.

Llofnodwyd:

Huw Roberts

Dyddiad:

31-01-2025

Enw:

HUW ROBERTS

Cymhwyster  
(cymwysterau) neu gorff  
proffesiynol perthnasol  
(os oes):

FCMA: Fellow of the Institute of Chartered  
Management Accountants

Cyfeiriad:

6 ALFREDA ROAD

WHITCHURCH

CAERDIDD CF14 2EH



Adran A

Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol

Adroddiad i  
ymddiriedolwyr/aelodau

Enw'r Elusen

TABERNACL EGLWYS Y BEDIYDDWYR

Ar y cyfrifon am y  
flwyddyn yn diwedd

2024

Rhif yr Elusen  
(os oes)

1194980

I'w gweld ar dudalennau

(cofiwch gynnwys rhifau tudalennau dalennau ychwanegol)

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon yr elusen uchod ("yr Ymddiriedolaeth") am y flwyddyn yn diwedd **DD / MM / BBBB**.

Cyfrifoldebau a'r sail  
adrodd

Fel ymddiriedolwyr elusen yr Ymddiriedolaeth, rydych yn gyfrifol am barato'i'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ("y Ddeddf").

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth ymgymryd â'm harchwiliad, dilynais y Cyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

Datganiad yr archwiliwr  
annibynnol

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw (heblaw'r hyn a ddatgelir isod \*) mewn perthynas â'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu, mewn unrhyw agwedd berthnasol:

- ni chafodd cofnodion cyfrifyddu eu cadw yn unol ag adran 130 o'r Ddeddf neu
- nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r cofnodion cyfrifyddu

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

\*Dilêwch y geiriau mewn cromfachau os nad ydynt yn gymwys.

Llofnodwyd:

Huw Roberts

Dyddiad:

31-01-2025

Enw:

HUW ROBERTS

Cymhwyster  
(cymwysterau) neu gorff  
proffesiynol perthnasol  
(os oes):

FCMA: Fellow of the Institute of Chartered  
Management Accountants

Cyfeiriad:

6 ALFREDA ROAD

WHITCHURCH

CAERDIDD CF14 2EH

**TABERNACL, EGLWYS Y BEDYDDWYR**

England & Wales - Charity number 1194980

---

# Accounts

---

## Tabernacl Eglwys y Bedyddwyr Annual Report 2023

Tabernacl Eglwys y Bedyddwyr is a Grade II\* listed City Centre Church. Services are conducted in the Welsh language. The governing body which meets once a month consists of the minister, 2 joint secretaries, treasurer, 2 financial secretaries and 10 other trustees. The year started with 151 members. There were 7 deaths during the year and 4 others transferred their membership to churches closer to their homes. 1 person was baptised thus ending the year with a membership of 141.

The church is committed to helping us to worship God, proclaim the Gospel and demonstrate the love of God in our everyday life, in Cardiff, Wales and the World. Most members are Welsh speaking but anybody who wishes to attend are always made very welcome. We welcome many foreign visitors from all parts of the world who drop in and worship with us while in the city on vacation or on business. The Church is a member of Cytun (churches together). This group includes the Church in Wales, Roman Catholics and other Nonconformist churches in the city. This gives us the opportunity, not only to hold interdenominational services, but also to meet socially to discuss and exchange ideas and to learn more about different faiths.

Sunday services are held in the morning and evening with Sunday School held after the morning service. On the first Sunday of the month a session of contemplative prayer takes place before the morning service and similarly after the evening service on the third Sunday of the month. On Thursday we have a time of prayer to pray for the mission of the church followed by a midweek service. Sunday services are transmitted on Facebook enabling those members unable to attend in person to join in the worship.

Members are visited regularly, especially those who are unable to attend for whatever reason. Holy Communion can be celebrated in their homes if they so wish.

Our Sisterhood meetings on Tuesday have benefitted from the inclusion of the gentlemen of the church and is now known as 'Cymdeithas am DDau'. Not only has this boosted the numbers present but we have been able to enjoy their input and company. On Tuesday evenings we have a more social evening open to anybody who wishes to attend. In each case there will be an invited speaker, with a time of worship at the beginning and end.

The church is used frequently for other events and purposes. It is used regularly by Hijinx (a group of less able youngsters) for their Youth Club and U3A for their dancing group. Street Pastors use the church as their base on Friday and Saturday evenings. Unfortunately the majority of our members are ageing and don't feel safe to volunteer on the streets late at night but we are fully supportive of the good work they do in keeping people safe.

The city centre location makes the church an ideal venue for concerts and performances of all kinds, and many choirs and organisations have made use of the building during the year.

At the end of 2022 we opened our vestry as a warm space for the homeless or those that wanted company or warmth. This venture has gone from strength to strength and since the beginning of 2023 we have been providing hot meals, fresh fruit and cakes for up to 70 people on a Wednesday and Sunday lunchtime. On a Saturday morning we are open for coffee/tea, sandwiches and cake. These times enable our visitors to sit and chat, have a free meal, take part in activities, or just sit and relax. They can also avail themselves of any clothes donated by our volunteers who turn in to prepare and serve. During February/March we had a special appeal for donations to finance this venture. At that time the Cooperative bank matched each contribution of £250 or less, enabling us to double the amount raised within the church

Every alternate month we have an organ recital at the church which is open to the public.

As a church we are twinned with Sefika Church in Maseru, Lesotho. Through this we have developed a strong friendship with different organisations in Maseru. A donation is sent yearly to support the work of these organisations. We see this work as an opportunity to demonstrate the love of God in other parts of the world less fortunate than ourselves.

We have also shown our support with donations to Christian Aid, Morocco/Libya appeal, Turkey/Syria Appeal, BMS, PAPYRUS, Bible Society and other local charities. Contributions for good causes have remained good despite the rise in the cost of living.

After much discussion and many different investigations it was decided that we would replace our 30 year old boiler with another gas boiler at a cost of £43,000. The boiler was installed towards the end of 2023 but work was not completed until the first part of 2024. This meant that there was no big expenditure on the church fabric during 2023. This will mean higher costs in 2024 as we now need to replace the roofing on the South side of the building.

Tabernacl is an old building requiring constant remedial work. The stonework of the church, which was built in 1865, is beginning to show its age and will require attention regularly to prevent further deterioration. We continue to hope that members will be as generous in their giving as always, so that we can make the building a better place for worshipping.

## Financial Review

Total receipts on unrestricted funds were £103,000 while restricted funds of £23,000 were received. Both figures are detailed in the financial statement. Most of the income was from individual donations, either in the weekly offering or one-off gifts to the church.

Fund raising and hiring out of the premises has brought in extra income.

